Cymdeithas Hwylio Cymru
Welsh Yachting Association

# Cynllun Strategol 2013/17
















## Hwylio - Camp Gydol Oes Gynhwysfawr



# CYNNWYS


| | EITEM | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 5 |
| 2 | Crynodeb Gweithredol | 6 - 7 |
| 3 | Ein Fframwaith Strategol | 9 |
| 4 | Hygyrchedd | 10 - 11 |
| 5 | Datblygu Rhwydwaith Ffyniannus o Glybiau | 12 - 13 |
| 6 | Cyrchfan o ddewis | 14 - 15 |
| 7 | Datblygu Hwylwyr o'r Radd Flaenaf | 16 - 17 |
| 8 | Rheolaeth  Gorfforaethol | 18 - 19 |

**Llyniau gan:**
Richard Langdon/RYA
Paul Wyeth/RYA
Nigel Vick
Noel Brown
Peter Newton
Paul Filby

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

sportwales
chwaraeoncymru

Cymdeithas Hwylio Cymru
8, Llys-Y-Mor, Plas Menai, Caernarfon, Gwynedd LL55 1UE
Rhif Ffon: 01248 670738 | Gwefan: www.welshsailing.org






# 1. RHAGAIR

Dros y pedair blynedd diwethaf, nod Cymdeithas Hwylio Cymru (WYA) oedd galluogi'r gorau i gyrraedd y brig ac annog pawb i gyflawni mwy nag oedden nhw erioed wedi'i ddychmygu'n bosibl. Rydyn ni wedi gwireddu dros 80% o'r targedau a osodwyd yn Strategaeth 2009/13 'Rhagoriaeth wrth hwylio a rhagor yn hwylio'.

Cyflwynwyd ein rhaglen gyfranogi 'RYA OnBoard' ar draws Cymru a chafodd dros 30,000 o bobl brofiadau cychwynnol mewn 18 clwb a/neu ganolfannau masnachol. Galluogodd cyllid partneriaeth ac Awdurdodau Lleol drwy Gytundeb Partneriaeth yr Awdurdodau Lleol (LAPA) bod rhagor o hyfforddwyr datblygu clybiau yn cael eu cyflogi. Mae'r gwaith yma wedi arwain at gynnydd mewn aelodaeth clybiau ac mae mwy o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Daeth hwylwyr o bob oedran o Gymru ir brig wrth ennill **25 o fedalau** yn y dosbarthiadau Olympaidd, Paralympaidd, a phencampwriaethau'r Byd ac Ewropeaidd. Dewiswyd dau o hwylwyr Cymru ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain ac ennillodd Hannah Mills Fedal Arian gofiadwy. Teithiodd hwylwyr o glybiau Cymru ar draws y DU i gystadlu ar y gylchdaith agored. Croesawodd clybiau Cymru 6 Phencampwriaeth Ryngwladol a 34 Pencampwriaeth Brydeinig a hynny'n ein gosod yn gadarn ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol fel cyrchfan a lleoliad i gynnal digwyddiadau hwylio.

Teithiodd hwylwyr o glybiau Cymru ar draws y DU i gystadlu ar y gylchdaith agored a chroesawodd clybiau Cymru 6 Phencampwriaeth Ryngwladol a 34 Pencampwriaeth Brydeinig a hynny'n ein gosod yn gadarn ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol fel cyrchfan a lleoliad i gynnal digwyddiadau hwylio.

Mae'r pedair blynedd nesaf yn cynnig set newydd o sialensiau yn dilyn gemau Llundain 2012. Mae gennym strwythur cadarn i'n clybiau a modelau rôl wych i hyrwyddo'n camp iach, egniol a chynhwysol.
Gall hwylio a morio yn gyffredinol hawlio i fod yn gamp gynhwysfawr ar gyfer cyfranogiad gydol oes, waeth beth fo'ch oed, rhyw neu eich gallu.


Mae'r sialens ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn un syml; mae angen i ni adeiladu ar ein rhaglenni cyfranogiad a datblygu llwyddiannus. Ein blaenoriaeth fydd cael mwy o bobl i gymryd rhan yn amlach mewn amrywiaeth o wahanol gychod. Bydd WYA yn cydweithio gyda chlybiau a rhanddeiliaid eraill i gyflawni'n targedau uchelgeisiol. Mae clybiau a gwirfoddolwyr yn allweddol i wireddu'r dyheadau hyn. Y clybiau ydy calon ein cymuned hwylio/ morio a hebddyn nhw, ni fedrwn gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol i'r gamp.

Rydyn ni'n credu bod ein camp yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Greu Cymru Iachach a Mwy Actif ar nifer o wahanol lefelau. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys ein gweledigaeth am y pedair blynedd nesaf. Rydyn ni wedi gosod targedau uchelgeisiol a heriol i ni ein hunain ar sut y byddwn yn cyfrannu at y "Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru" a sut bydd clybiau Cymru a'n morwyr o bob disgyblaeth cychod yn chwarae eu rhan i "Gael pob Plentyn wedi Gwirioni ar Chwaraeon am Oes" a chreu "Cenedl o Bencampwyr".

Mae'r strategaeth hon yn un uchelgeisiol iawn ac fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â'n clybiau, gwirfoddolwyr ac mewn partneriaeth gyda'r RYA a'n cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydyn ni gyd wedi uno ag un bwriad trosfwaol - i gynorthwyo'n haelodau a'n clybiau a'u galluogi i dyfu a datblygu.

**David Griffiths**
**Cadeirydd WYA**













# 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cymdeithas Hwylio Cymru (WYA) ydy'r Corff Llywodraethol Cenedlaethol ar gyfer pob math o weithgaredd morio yng Nghymru. Mae'r WYA yn gweithio'n agos gyda'r RYA (Cymdeithas Hwylio Frenhinol) corff llywodraethol y DU ac aelod o ISAF (Ffederasiwn Hwylio Rhyngwladol). Mae'r WYA yn gweithredu ar ran yr RYA ar yr holl faterion sy'n berthnasol i Gymru. **Gyda'n gilydd, rydyn ni'n cefnogi dros 25,000 o aelodau clybiau ac aelodau personol.**

## Ein Gweledigaeth:

Cymru'n cael ei chydnabod yn un o'r Mannau Gorau yn y Byd i fod yn Hwyliwr.

## Ein Dyheadau:

1. Ein nod ydy cael rhwydwaith ffyniannus o glybiau a chanolfannau sy'n cydweithio i gyflwyno a chadw pobl yn hwylio/morio a chynnal eu hymglymiad yn ein camp gydol oes gynhwysfawr.
2. Nod Cymru - I fod y Rhanbarth sy'n perfformio orau yn y DU oherwydd ansawdd ein llwybr perfformio, hyfforddi a'n rhaglen o ddigwyddiadau.


## Gwireddir y dyheadau hyn drwy:

- **Hygyrchedd** - Datblygu rhwydwaith o bartneriaid fydd yn darparu amrediad o gyfleoedd ar gyfer oedolion, teuluoedd a phobl ifanc i gymryd rhan yn ein camp gynhwysfawr.
- **Rhwydwaith Ffyniannus o Glybiau** - Ble fydd clybiau a chanolfannau masnachol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymunedau i gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn ein camp gydol eu hoes.
- **Cyrchfan o ddewis** - Ar gyfer digwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol ymhob disgyblaeth. Dod â'r gorau i Gymru er mwyn galluogi'n hwylwyr i gael cystadleuaeth briodol ar ddyfroedd cartref a dangos ein hamgylchedd naturiol hardd i'r byd.
- **Datblygu Hwylwyr o Radd Flaenaf** - Rydyn ni'n ymgeisio i gael llwybr perfformiad o'r radd flaenaf sy'n datblygu hwylwyr a all gystadlu dros Dîm GBR ar lwyfan y byd.

**Ein pwrpas cyffredinol ydy sail ein gweledigaeth a'n dyheadau:**


**Hyrwyddo ac Amddiffyn Hwylio Diogel, Llwyddiannus a Llawn Boddhad yng Nghymru**

- **Hyrwyddo** - gwella'r ddelwedd a chodi ymwybyddiaeth o'n camp a chynyddu cyfranogiad ac aelodaeth clybiau;
- **Amddiffyn** - yr amgylchedd naturiol morol a gweithio gyda'r RYA i gynnal hawliau, rhyddid a safonau;
- **Diogelu** - gweithio gyda'r RYA i gynnal safonau diogelwch a rhannu arfer dda;
- **Llwyddo** - ar bob lefel ac ymhob disgyblaeth;
- **Rhoi Boddhad** - heriol, hwyliog, cyffrous, pleserus, gan roi boddhad ar bob lefel gan gynnwys gwirfoddoli;
- **Morio** - hwylio, hwylfyrddio, mor deithio, cychod pŵer ayb (dim campau â phadl);
- **Yng Nghymru** - nid i'r Cymry yn unig - ein hymwelwyr a'n twristiaid morol a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.
























# 3. EIN FFRAMWAITH STRATEGOL

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r pedwar piler strategol yn clymu gyda'i gilydd i gynorthwyo i gyflenwi ein gweledigaeth.

**Cymru'n cael ei chydnabod yn un o'r Mannau Gorau yn y Byd i fod yn Hwyliwr**

| Hygyrchedd | Rhwydwaith Ffyniannus o Glybiau | Cyrchfan o Ddewis (ar gyfer Digwyddiadau) | Datblygu Hwylwyr o'r Radd Flaenaf |
|---|---|---|---|
| **Cenhadaeth 2017 :** Datblygu rhwydwaith o bartneriaid fydd yn darparu amrediad o gyfleoedd ar gyfer oedolion, teuluoedd a phobl ifanc i gymryd rhan yn ein camp gynhwysfawr. | **Cenhadaeth 2017 :** Byddwn yn datblygu rhywdwaith ffyniannus ble fydd clybiau a chanolfannau masnachol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymunedau i gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn ein camp gydol eu hoes. | **Cenhadaeth 2017 :** Cyrchfan o Ddewis - Ar gyfer digwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol ymhob disgyblaeth. Dod â'r gorau i Gymru er mwyn galluogi'n hwylwyr i gael cystadleuaeth briodol ar ddyfroedd cartref a dangos ein hamgylchedd naturiol hardd i'r byd. | **Cenhadaeth 2017 :** Datblygu Hwylwyr o Radd Flaenaf - Rydyn ni'n ymgeisio i gael llwybr perfformiad o'r radd flaenaf sy'n datblygu hwylwyr a all gystadlu dros Dîm GBR ar lwyfan y byd. |

**"Y Cerrig Sylfaen Greiddiol"**

Datblygu a Chynorthwyo Gweithlu o Wirfoddolwyr Egniol

Datblygu Partneriaethau Cynaliadwy

Rheolaeth Dda










# 4. HYGYRCHEDD

**Cenhadaeth 2017 -** Datblygu rhwydwaith o bartneriaid fydd yn darparu amrediad o gyfleoedd ar gyfer oedolion, teuluoedd a phobl ifanc i gymryd rhan yn ein camp gynhwysfawr.

Mae'r rhaglen 'OnBoard' erbyn hyn wedi hen ennill ei phlwyf ac mae dros 30,000 o brofiadau cyntaf o hwylio a hwylfyrddio wedi eu cyflwyno, datblygwyd partneriaethau gydag awdurdodau lleol a chanolfannau masnachol datblygu ac mae wedi creu cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf cadwyd 4.69% o gyfanswm y nifer gafodd y profiad cyntaf o hwylio ac o ganlyniad, cafwyd teuluoedd newydd, ieuenctid ac aelodau iau yn ymaelodi yn ein clybiau a'n canolfannau 'OnBoard'.

## Data OB Cymru 2009/13




| | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| # Partneriaid | 2 | 9 | 11 | 15 | 18 |
| # Profiad 1af (cymhareb 1:100) | 12.95 | 41.74 | 72.02 | 70.87 | 104.48 |
| # Cymryd rhan yn rheolaidd (cymhareb 1:10) | 4.3 | 17 | 15.4 | 24.3 | 80.7 |

** Seilir y graffiau ar ddata 2012. Mae'r niferoedd cadw bellach yn seiliedig ar y nifer gwirioneddol o rai fu'n mynychu sesiynau OnBoard sydd wedi eu cadw fel aelodau o glwb/canolfan.

Mae 'OnBoard' yn rhaglen allweddol ar gyfer y pedair blynedd nesaf; fodd bynnag, bydd y pwyslais ar drosi mwy o'r rhai sydd wedi cael profiadau cyntaf yn aelodau o glybiau ac yn gyfranogwyr cyson. Ein meincnod fydd troi lleiafswm o 10% o gyfranogwyr gwirioneddol yn aelodau/cyfranogwyr cyson o glwb neu ganolfan. Yn ein partneriaethau mwyaf llwyddiannus byddwn yn gosod targed ymestynnol o 15% o gyfranogwyr .

Bydd WYA yn cael mynediad i raglenni'r DU a fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau cyfranogiad yn ystod y cynllun strategol hwn i'n helpu ni i gyflawni'n targedau. Defnyddir rhaglenni megis 'OnBoard', 'T15', 'Sailability' ac 'Active Marinas' i annog mwy o gyfranogiad a fydd yn arwain at gadw rhagor o bobl yn ein clybiau a'n canolfannau fel aelodau neu forwyr hamdden.

Mae cael oedolion i gymryd rhan yn faes newydd y bydd WYA yn canolbwyntio arno yn ystod y cynllun strategol hwn. Oedolion ydy'r grŵp sy'n cyfranogi fwyaf yn ein clybiau. Anogir clybiau a chanolfannau i sefydlu cyfleoedd i dalu a chwarae a fydd yn gwneud chwaraeon yn fwy hygyrch i gyfranogwyr newydd. I gynnwys y gymuned ehangach sy'n hwylio fel gweithgaredd hamdden bydd rhaglenni newydd fel yr RYA 'Active Marina' yn cael eu sefydlu yng Nghymru.

Mae hwylio'n gamp iach a chynhwysol. Dros y pedair blynedd nesa, byddwn yn datblygu'r rhaglen 'Sailability' yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda'r RYA, clybiau a chanolfannau masnachol i gynyddu nifer y lleoliadau sy'n cynnig cyfleoedd i gyfranogwyr ag anabledd i gymryd rhan.

## Addysg Hyfforddwyr a Gwirfoddolwyr

Mae datblygu a chynorthwyo gweithlu o wirfoddolwyr egniol yn un o'r prif gerrig sylfaen ein cynllun strategol ac mae'n cyfrannu at bob cenhadaeth unigol. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae dros 700 o hyfforddwyr wedi ennill cymwysterau RYA.

Bydd y cynllun strategol hwn yn parhau i gynorthwyo clybiau a gwirfoddolwyr a chynyddu'r nifer o unigolion sy'n ennill cymwysterau. I gyflawni ein targedau cyfranogiad bydd angen i ni gynorthwyo'r gwirfoddolwyr presennol a helpu clybiau i recriwtio rhai newydd.

Yn ein Cynllun Datblygu Clwb a Chymuned 2013/17, gallwch gael rhagor o fanylion am ein dyheadau a'r modd y byddwn yn gweithredu'r rhan hwn o'n gwaith. Arweinir a rheolir ein rhaglenni cyfranogiad a datblygiad clwb gan ein swyddogion, sy'n cael eu cefnogi gan ein Pwyllgorau Rhanbarthol.

**Cenhadaeth 2017 - Datblygu rhwydwaith o bartneriaid fydd yn darparu amrediad o gyfleoedd ar gyfer oedolion, teuluoedd a phobl ifanc i gymryd rhan yn ein camp gynhwysfawr.**

| Targedau'r Genhadaeth | Mesur Cynnydd |
|---|---|
| Cyflenwi 50,000 o gyfleoedd 'OnBoard' (ar draws y sbectrwm morio). | T1 - 40,000 o sesiynau 'OnBoard' (iau ac ieuenctid).<br>T2 - 10,000 o sesiynau 'OnBoard' 18+. |
| 'Sailability' yn datblygu'n un o'n rhaglenni prif ffrwd. | T3 - 5000 o brofiadau cyntaf o 'Sailability'. |
| Mwy o glybiau a chanolfannau yn cyflenwi sesiynau 'OnBoard'.<br>Ymglymu ag oedolion a sector hamdden y maes hwylio (Recreational Boating Community). | T4 - 30 o Glybiau a Chanolfannau yn cyflenwi'r rhaglen 'OnBoard'.<br>T5 - Sefydlu a datblygu 4 Prosiect 'Active Marina' erbyn 2017. |
| Annog Clybiau a Chanolfannau i ddatblygu cyfleoedd i dalu a chwarae. | T6 - 22 o Glybiau neu ganolfannau i gynnig cyfleoedd talu a chwarae erbyn 2017. |

















# 5. DATBLYGU RHWYDWAITH FFYNIANNUS O GLYBIAU

**Cenhadaeth 2017 -** Datblygu rhwydwaith ffynianus  ble fydd clybiau a chanolfannau masnachol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymunedau i gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn ein camp gydol eu hoes.

Os ydy Cymru'n mynd i gael ei chydnabod fel un o'r mannau gorau yn y byd i fod yn hwyliwr rhaid cael rhwydwaith bywiog a ffyniannus o glybiau a chanolfannau lle mae cydweithio yn norm. Datblygu ein clybiau a'u cynorthwyo i dyfu ydy agwedd bwysicaf y cynllun strategol hwn. Heb glybiau bywiog a ffyniannus does dim gobaith o ddenu aelodau newydd na chadw'r aelodau presennol yn y gamp.

Mae cadw mwy o bobl sy'n cwblhau ein rhaglenni cyfranogi yn faes ffocws allweddol. Byddwn yn targedu ein strwythur staffio rhanbarthol newydd. Byddwn yn cynorthwyo clybiau i ddatblygu eu dyheadau a'u cynlluniau datblygu eu hun. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i gadw aelodau newydd, cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau rasio'r clybiau a recriwtio a chadw gwirfoddolwyr newydd.

Fel arfer, lleolir clybiau yng nghanol eu cymunedau, yn cynnig cyfleoedd 'stepen drws' i bob oedran gymryd rhan yn ein camp iach a chynhwysol. Mae gan glybiau hefyd ran bwysig i chwarae yn y llwybr perfformio drwy feithrin hwylwyr ifanc yn ogystal â chynnig cyfranogiad gydol oes barhaus a mwynhad iddyn nhw drwy gystadlaethau, rasio yn y clybiau a gweithgareddau hamdden ar ôl dod oddi ar y llwybr perfformio.




Dros y pedair blynedd nesaf, ein nod ydy cydweithio gyda chlybiau a chanolfannau a all gyflenwi ein rhaglenni allweddol. Byddwn hefyd yn cynorthwyo clybiau newydd i brynu mewn i'n dyhead o wneud Cymru yn un o'r mannau gorau yn y byd i fod yn hwyliwr.

Byddwn yn helpu clybiau i wella ansawdd eu cystadlaethau rasio a'r hyfforddiant rasio ar gyfer oedolion gan geisio cael mwy o gychod i gymryd rhan mewn cystadlaethau yn y clybiau. Y prif faen prawf i fesur llwyddiant yn y maes hwn fydd cael clybiau i gydweithio  drwy rannu gwybodaeth ac adnoddau. Mae gan ein tri phwyllgor rhanbarthol ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth.

## Addysg Hyfforddwyr a Gwirfoddolwyr

Cynorthwyo a datblygu gweithlu gwirfoddol ydy un o elfennau sylfaenol, allweddol y cynllun strategol hwn ac un sy'n cwmpasu ein pedwar piler strategol.

Mae gwella ansawdd a chynyddu'r nifer o gyfleoedd hyfforddiant ar y dŵr yn nod allweddol a byddwn yn targedu cymorth ein hyfforddwyr cymunedol i helpu clybiau wella'u rhaglenni rasio a hyfforddiant.


Mae'n bwysig ein bod yn gwerthfawrogi a chynorthwyo gwaith gwirfoddolwyr ar bob lefel. Gwneir hyn mewn partneriaeth gyda'n tri Phwyllgor Rhanbarthol yn ogystal â'n partneriaid masnachol ym mhob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru.

Yn ein Cynllun Datblygu Clwb a Chymuned 2013/17, ceir mwy o fanylion am ein dyheadau a sut y byddwn yn gweithredu'r rhan hon o'n gwaith. Arweinir a rheolir ein cynlluniau datblygu gan ein Staff Datblygu Cenedlaethol a Rhanbarthol gyda chymorth ein Pwyllgorau Rhanbarthol.

Cenhadaeth 2017 -  Datblygu rhwydwaith ffynianus  ble fydd clybiau a chanolfannau masnachol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymunedau i gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn ein camp gydol eu hoes.

| Targedau Cenhadaeth | Mesur Cynnydd |
|---|---|
| Gwella'r cysylltiadau rhwng ein canolfannau 'OnBoard' a'n clybiau i wella cyfraddau cadw/aelodaeth clwb. | T7 -Trosi lleiafswm o 10% o'r bobl sydd wedi cymryd rhan yn ein rhaglenni OB i fod yn aelodau/cyfranogwyr mewn clybiau neu ganolfannau. |
| Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n ennill dyfarniad hyfforddi'r RYA. | T8 - 1000 o wirfoddolwyr newydd yn ennill cymwysterau RYA erbyn 2017. |
| Cynyddu'r nifer y cychod sy'n cymryd rhan mewn rasio clwb a gweithgareddau hamdden ar y dŵr. | T9 - Cynyddu nifer o Glybiau 'RYA Champion' i 18 erbyn 2017. |
| Cynyddu'r nifer o aelodau clwb sy'n dod yn aelodau personol o'r RYA. | T10 - Cynyddu'r nifer o aelodau personol RYA yng Nghymru i 5,000 erbyn 2017. |
| Datblygu (gyda RYA) ffordd ddibynadwy o fesur aelodaeth clwb yn ôl rhyw ac oedran sy'n ein galluogi i adrodd ar aelodaeth clwb. | T11 - Cynyddu aelodaeth clybiau yng Nghymru i 30,000 erbyn 2017. |
| Cynyddu nifer y clybiau 'Sailability Foundation' yng Nghymru erbyn 2017. | T12 - Cynyddu o 3 i 7 y nifer o glybiau 'Sailability Foundation', erbyn 2017. |













# 6. CYRCHFAN O DDEWIS (DIGWYDDIADAU HWYLIO)

**Cenhadaeth 2017 - Ar gyfer digwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol ymhob disgyblaeth. Dod â'r gorau i Gymru er mwyn galluogi'n hwylwyr i gael cystadleuaeth briodol ar ddyfroedd cartref a dangos ein hamgylchedd naturiol hardd i'r byd.**

Cydnabyddir yn gyffredinol bod digwyddiadau chwaraeon wedi codi proffil Cymru fel gwlad ddeinamig ac uchelgeisiol. Mae Cwpan Ryder, Criced Gemau Prawf Y Lludw a'r Cwpan Rygbi Ewropeaidd wedi chwarae eu rhan i ddangos yr adnoddau sydd ar gael a'r campau unigol hynny.

Dros y pum mlynedd diwethaf, cyfrannodd hwylio at yr uchelgais hon ac elwodd o fuddsoddiadau drwy sefydlu a datblygu Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Digwyddiadau (WNSA) ym Mhwllheli. Mae'r WNSA bellach yn gyrchfan o ddewis i gynnal cystadlaethau Rhyngwladol a Chenedlaethol gyda dros 7000 o gystadleuwyr o dros 24 o wledydd yn profi amodau gwych ar gyfer hwylio ym Mae Ceredigion. Yn 2012 roedd cyflwyno digwyddiadau deniadol i'r gynulleidfa megis yr 'Extreme 40's' ym Mae Caerdydd yn codi'n henw da am gynnal digwyddiadau ac yn araf ond yn sicr mae Cymru'n gwneud ei farc ar lwyfan y byd.

Mae digwyddiadau yn chwarae rôl ehangach yn llwybr datblygiad clybiau a pherfformiad drwy roi cyfleoedd i'n hwylwyr gystadlu yn lleol er mwyn iddyn nhw allu datblygu a gwella. Yn 2012, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd astudiaeth ymarferoldeb ac, o ganlyniad, sefydlwyd strategaeth newydd unigol ar gyfer digwyddiadau o'r enw: "Cymru Cyrchfan o Ddewis".

## Datblygu Digwyddiadau Twf

Mae sefydlu a datblygu ein digwyddiad ni ein hunain gyda'r potensial i ddatblygu'n "Ddigwyddiad Unigryw" yn nod allweddol i'r WYA. Byddai'r math hwn o ddigwyddiad yn atyniad arwyddocaol ychwanegol i ddenu twristiaid i Gymru a chynhyrchu manteision economaidd i'r cymunedau lleol.

Mae datblygu digwyddiad hwylio "unigryw i Gymru" yn apelio'n fawr ac mae potensial i:

- Fanteisio i'r eithaf ar ei apel fel gwledd I wylwyr
- Cynyddu'r nifer sy'n cystadly
- Cael dylanwad economaidd llawer ehangach

Yn ystod cyfnod y strategaeth, bydd yr WYA yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid i ddatblygu digwyddiadau twf newydd gyda'r bwriad o sefydlu grŵp hunangynhaliol i ddatblygu ac, yn y pen draw, i reoli pob digwyddiad.

Mae datblygu partneriaethau cynaliadwy yn elfen allweddol yn ein strategaeth ar gyfer digwyddiadau. Ein nod ydy cynorthwyo ac annog ein clybiau i wneud digwyddiadau llai yn gynaliadwy. Un o'n targedau allweddol fydd sicrhau cyllid i gyflogi Cydlynydd/ Cydlynwyr Datblygu Digwyddiadau i ddatblygu ac arwain gweithlu o wirfoddolwyr a defnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf modern i farchnata digwyddiadau. Mae hon yn elfen allweddol wrth geisio sicrhau bod ein holl bartneriaid yn datblygu enw da am gynnal digwyddiadau proffesiynol, sydd wedi'u rheoli'n dda a bod Cymru'n cael ei chydnabod drwy'r DU ac ymhellach fel cyrchfan i gynnal digwyddiadau. Mae datblygu partneriaethau lleol a rhanbarthol gydag awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill yn bwysig iawn i agor drysau at gyfleoedd i gael cyllid lleol.

## Datblygu Gwirfoddolwyr


Mae cynorthwyo gwirfoddolwyr i ennill cymwysterau Rheoli Ras yn un o themâu tanategol y strategaeth ar gyfer digwyddiadau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y swyddogion cymwysedig wedi gostwng. Dros y 4 blynedd nesaf bydd WYA yn gweithio gydag Adran Rasio'r RYA a'n pwyllgorau Rhanbarthol i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n ennill cymwysterau.

Mae ein Strategaeth Digwyddiadau ar gyfer 2013/17 yn sôn yn fwy manwl am ein dyheadau a sut y byddwn yn gweithredu'r rhan hon o'n gwaith.

**Cenhedaeth 2017 - Ar gyfer digwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol ymhob disgyblaeth. Dod â'r gorau i Gymru er mwyn galluogi'n hwylwyr i gael cystadleuaeth briodol ar ddyfroedd cartref a dangos ein hamgylchedd naturiol hardd i'r byd.**

| Targedau Cenhadaeth | Mesur Cynnydd |
|---|---|
| Cynyddu nifer y digwyddiadau Byd ac Ewropeaidd mewn dosbarthiadau Olympaidd a di-Olympaidd sy'n dod i Gymru. | T13 - croesawu lleiafswm o 1 Bencampwriaeth Byd neu Ewropeaidd yn flynyddol rhwng 2013 a 2017. |
| Cynyddu'r nifer o bencampwriaethau mae'r Cymdeithasau Cychod Cenedlaethol DU (UK Class Associations) yn cynnal yng Nghymru. | T14 - croesawu lleiafswm o 7 Pencampwriaeth Cymdeithasau Cychod Cenedlaethol y DU (UK National Class Associations) yn flynyddol. |
| Sefydlu "Digwyddiad Twf" newydd. | T15 - gweithio gydag ystod o bartneriaid i sefydlu 2 Ddigwyddiad Twf newydd erbyn 2017. |
| Gweithio gyda'r RYA a'r WNSA i sicrhau Pencampwriaeth ISAF y Byd ar gyfer ieuenctid. | T16 - sicrhau Pencampwriaeth ISAF y Byd ar gyfer Ieuenctid erbyn 2017. |
| Datblygu gweithlu cryf o wirfoddolwyr i reoli a chynnal digwyddiadau. | T17 - cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n meddu ar gymwysterau RYA ar gyfer Rheoli Ras o 100 erbyn 2017. |













# 7. DATBLYGU HWYLWYR GORAU'R BYD

**Cenhadaeth 2017 - Datblygu Hwylwyr o Radd Flaenaf - Rydyn ni'n ymgeisio i gael llwybr perfformiad o'r radd flaenaf sy'n datblygu hwylwyr a all gystadlu dros Dîm GBR ar lwyfan y byd.**

Prif bwrpas Llwybr Perfformio Cymru ydy bwydo Strwythur Sgwad Prydain gyda hwylwyr talentog. Dros yr wyth mlynedd diwethaf mae hwylwyr o Gymru wedi ennill medalau yn gyson ar y llwyfan rhyngwladol wrth gynrychioli Tîm GBR yn y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd a'r dosbarthiadau bwydo.


Yn ystod cynllun strategol 2009/13 , bu hwylwyr o Gymru yn llwyddiannus ar bob lefel o'r llwybr gan wneud cyfraniad sylweddol i ddyheadau "Gweledigaeth ar Gyfer Chwaraeon" o greu "Cenedl o Bencampwyr" drwy ennill 25 o fedalau mewn pencampwriaethau byd ac Ewropeaidd. Y penllanw oedd medal arian i Hannah Mills yng Ngemau Olympaidd Llundain yn 2012.

## 2009/12 Cyfanswm Medalau

| L2012 | Y Byd - Hŷn | Y Byd - Ieuenctid/Iau | Ewropeaidd - Hŷn | Ewropeaidd - Ieuenctid/Iau | Pencampwriaethau Ieuenctid y DU | Medalau mewn Pencampwriaethau Ieuenctid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 9 | 7 | 5 | 3 | 4 | 23 |

Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi cyfrannu mwy o hwylwyr o Gymru i garfan GBR nag erioed o'r blaen ac mae gwir ddyfnder o dalent yn y sgwadiau iau ac ieuenctid a hefyd i mewn i'r Sgwadiau Olympaidd.

## Ein Llwybr Perfformiad




## Rio & Thu hwnt

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn parhau i adolygu a gwella Sgwad Genedlaethol Cymru a'n rhaglen ar gyfer yr Academi. Cyflwynwyd rhaglen yr Academi Ieuenctid yn 2011 i ddarparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer yr hwylwyr Ieuenctid (16+) mwyaf talentog a chaiff y cymorth hwn ei fireinio er mwyn sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei chenhadaeth ar gyfer 2017 sef bod y rhanbarth sy'n perfformio orau yn y DU.

Yn hyn sy'n allweddol i sicrhau hyn ydy cymorth Chwaraeon Cymru drwy'r rhaglen ariannu. Mae arian y Loteri a chymorth grant uniongyrchol yn ein galluogi i roi cymorth i'n hwylwyr gydag offer, hyfforddiant a defnydd o gyfleusterau sydd ymysg y gorau yn y DU ar gyfer hyfforddi a chystadlu.

## Datblygu Hyfforddwyr a Gwirfoddolwyr

Mae sicrhau'r hyfforddwyr gorau ar gyfer ein sgwadiau a'n hwylwyr ifanc yn bwysig iawn. Rydym yn ffodus o gael rhai o'r hyfforddwyr uchaf eu parch yn y DU yn gweithio o fewn ein strwythur. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn defnyddio'u profiad i ddatblygu hyfforddwyr ifanc newydd a rhoi cyfle iddyn nhw weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr elit o'r radd flaenaf.


Mae'n hwylwyr a'n hyfforddwyr yn elwa'n ddirfawr o fod yn rhan o un o raglenni perfformio fwyaf llwyddiannus yn y byd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr o fewn yr RYA a strwythur Tîm GBR i gyfrannu hwylwyr i lwybr GBR.

Yn ein Cynllun Perfformiad Uchel 2013/17, ceir manylion am ein dyheadau a sut y byddwn yn gweithredu'r rhan hon o'n gwaith. Arweinir a rheolir ein rhaglen berfformio gan ein Rheolwr Perfformiad Uchel (HPM) sy'n cael cymorth hyfforddwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol.

**Cenhadaeth 2017 - Datblygu Hwylwyr o Radd Flaenaf - Rydyn ni'n ymgeisio i gael llwybr perfformiad o'r radd flaenaf sy'n datblygu hwylwyr a all gystadlu dros Dîm GBR ar lwyfan y byd.**

| Targedau Cenhadaeth | Mesur Cynnydd |
|---|---|
| Cynyddu nifer yr hwylwyr yn Sgwadiau Ieuenctid ac Iau GBR. | T18 - Hwylwyr o Gymru i lenwi 30% o gyfanswm y llefydd sydd ar gael yn sgwad GBR erbyn 2017. |
| Cynyddu % yr hwylwyr o Gymru yn y Sgwad Olympaidd ac yn Sgwad Datblygu ar gyfer y gemau Olympaidd. | T19 - Hwylwyr o Gymru i lenwi lleiafswm o 5% o'r llefydd sydd ar gael ar y sgwad ar gyfer y cylch Olympaidd nesaf. |
| Cynyddu'r nifer o fedalau a enillir mewn digwyddiadau hwylio Byd ac Ewropeaidd, mewn Gemau Olympaidd, Paralympaidd a dosbarthiadau bwydo Ieuenctid ac Iau. | T20 - Hwylwyr o Gymru i ennill 35 o fedalau yn nigwyddiadau hwylio Byd ac Ewropeaidd yn nosbarthiadau cydnabyddedig y Gemau Olympaidd, Paralympaidd a'r dosbarthiadau bwydo Ieuenctid ac Iau erbyn 2017. |
| Cynyddu nifer y medalau a enillir gan hwylwyr o Gymru ym Mhencampwriaethau Ieuenctid y DU ac mewn digwyddiadau'r Cymdeithasau Cychod Cenedlaethol y DU yn y dosbarthiadau bwydo ieuenctid ac iau. | T21 - Hwylwyr o Gymru i ennill 30 o fedalau ym Mhencampwriaethau Ieuenctid y DU ac mewn digwyddiadau'r Cymdeithasau Cychod Cenedlaethol y DU yn y dosbarthiadau bwydo ieuenctid ac iau erbyn 2017. |
| Cynyddu nifer y clybiau sy'n cyfrannu at y llwybr perfformio. | T22 - Cynyddu'r nifer o glybiau sy'n cyfrannu at lwybr y Sgwadiau Cenedlaethol a Rhanbarthol yng Nghymru o 30% erbyn 2017. |













# 8. RHEOLAETH GORFFORAETHOL

Yn ystod y cynllun strategol diwethaf, adolygodd yr WYA effeithiolrwydd ei drefniadaeth gan fabwysiadu strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau a staffio. Atgyfnerthwyd y Bwrdd i gynnwys cymysgedd o Gyfarwyddwr etholedig a Chyfarwyddwr yn meddu ar sgiliau a benodwyd oherwydd eu gwybodaeth am fusnes, marchnata a'r byd ariannol. Y nod ydy sefydlu gwell trefn busnes a rheolaeth yn yr WYA.

Y sialens ar gyfer y pedair blynedd nesaf ydy sicrhau bod y strwythur newydd yn rhan annatod o'r drefn a bod ein haelodau yn gallu llywio cyfeiriad y corff llywodraethol i'r dyfodol. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran menywod a dynion ar y Bwrdd yn ogystal â chynnal cynrychiolaeth ranbarthol gytbwys.

Ein gwerthoedd sydd wrth wraidd ein pwrpas a'n dyheadau ynghyd â'r athroniaeth y byddwn yn ymgeisio i alluogi'r gorau i gyrraedd y brig ac annog pawb i gyflawni mwy na fydden nhw erioed wedi meddwl yn bosibl.

## Gwerthoedd Cyfundrefnol yr WYA

**Parchu** - gwaith a chyfraniad gwirfoddolwyr, staff a phartneriaid bob amser.

**Gonestrwydd** - ymdrechwn i weithredu mewn modd agored a thryloyw, yn gwneud penderfyniadau er lles y gamp yng Nghymru.

**Cynhwysol** - rydyn ni'n cydnabod natur amrywiol Cymru ac yn cofleidio'r iaith Gymraeg. Ni fyddwn yn caniatáu i iaith, gallu, nac anabledd i fod yn rhwystr i gyfranogiad a mwynhad.

**Rhagoriaeth** - rydyn ni'n ymgeisio i fod o'r radd flaenaf ym mhopeth a wnawn ac yn annog eraill i wneud yr un peth.

## Staffio

Bydd strwythur newydd ar gyfer staffio yn cael ei gweithredu yn 2013 gan gymryd i ystyriaeth yr angen am ddull mwy rhanbarthol o fynd ati i ddatblygu clybiau a gwirfoddolwyr. Y nod ar gyfer y pedair blynedd nesaf ydy cael tri swyddog rhanbarthol a fydd yn hwyluso cyfranogiad, datblygu clybiau a chynorthwyo datblygiad gwirfoddolwyr yng Ngogledd, De a Gorllewin Cymru. Rheolir datblygiad polisi cenedlaethol a gweinyddiad ein rhaglenni yn ganolog gan y Brif Swyddfa ym Mhlas Menai. Bydd hyn yn caniatáu rhagor o amser i'n staff datblygu rhanbarthol i weithio'n uniongyrchol gyda chlybiau a phartneriaid eraill.

## Rheolaeth Dda

Archwiliwyd yr WYA gan Price Waterhouse Coopers yn 2010 ac mae'r holl argymhellion ar waith erbyn hyn. Rydym wedi symud ymlaen gyda nifer o achrediadau cenedlaethol, ac yn falch o fod wedi cyflawni, ar y cyd â'r RYA, y Lefel Rhagarweiniol o'r "Safon Fframwaith Cydraddoldeb". Hefyd, mae gwaith yn parhau i gyflawni safon ofynnol fframwaith yr NSPCC" Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn a thrwy Chwaraeon yng Nghymru". Arweinir y gwaith hwn gan Swyddog Arweiniol Amddiffyn Plant rhan amser. Bydd y swyddog arweiniol yn goruchwylio gweithredu'r cynllun a chynorthwyo swyddogion lles y clybiau.

Bydd yr WYA yn defnyddio Rhaglen 'Hunan Sicrhau' (Self-assurance) Chwaraeon Cymru er mwyn sicrhau bod polisïau allweddol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Byddwn yn ymgeisio gwella o flwyddyn i flwyddyn er mwyn cyflawni achrediad lefel gwyrdd ar draws pob maes erbyn 2017.

## Cynaliadwyedd Ariannol

Dros y cyfnod strategol diwethaf, llwyddodd yr WYA i ostwng y canran incwm a ddaw o Chwaraeon Cymru fel canran o gyfanswm ein hincwm. Bydd cynllun nawdd a chyfathrebu'n cael ei ddatblygu i gynorthwyo'r strategaeth yma. Un o'n prif dargedau corfforaethol fydd sicrhau noddwr blaenllaw neu noddwyr rhaglenni unigol i'n galluogi i wneud mwy ac i gyflenwi'n targedau uchelgeisiol.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r WYA yn cydnabod ei oblygiadau i briff-ffrydio'r Iaith Gymraeg. Gwnawn ein gorau glas i wella ar berfformiad y gorffennol a cheisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un modd â'r Saesneg.

Anogi'r a chynigir cymorth i staff ddysgu Cymraeg yn ystod y diwrnod gwaith a bydd yn ffactor dymunol yn ein polisi recriwtio staff. Ein nod ydy cael gwefan ddwyieithog erbyn 2017 a byddwn yn sicrhau bod ein deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

## Monitro a Gwerthuso

Bydd y WYA yn cyflwyno adolygiad blynyddol a fydd yn tracio'r cynnydd a wneir yn erbyn pob un o'r pileri strategol. Bydd pob piler yn adrodd yn ôl i'w bwyllgor perthnasol neu i Fwrdd yr WYA yn flynyddol er mwyn monitro'r cynnydd yn erbyn ein dyheadau. Cynhelir arolwg canol tymor o'r strategaeth yn 2015 gyda grŵp ehangach o randdeiliaid o'n pwyllgorau rhanbarthol er mwyn adolygu'r cynnydd. Yn 2016 cynhelir adolygiad llawn i baratoi ar gyfer cynllun strategol 2017/21.

Bydd y WYA yn gweithio gyda'r RYA a gweddill gwledydd y DU i ddatblygu dull cadarn o gofnodi aelodaeth clybiau. Byddwn yn ymchwilio i sut y gall segmentau'r farchnad a data cyfranogiad a gedwir gan Chwaraeon Cymru gael eu ddefnyddio i liwio'r cynllun gweithredol.

